


## Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw elusen swyddogol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rydym yn sefydliad annibynnol a lywodraethir gan fwrdd ymddiriedolwyr ymreolaethol a phrofiadol sy'n goruchwylio ein gwaith.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gefnogi'r prosiectau gorau a gyflawnir gan y bobl orau a phrosiectau sy'n cael eu llywio gan Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan y cymunedau lleol a gan arbenigwyr amgylcheddol a threftadaeth.

Ein hamcanion elusennol yw:

• Hyrwyddo cadwraeth, gwarchodaeth a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardaloedd cyfagos gan gynnwys bywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol.

• Hyrwyddo'r addysg am bwysigrwydd y Parc Cenedlaethol, y bywyd gwyllt sydd yn y Parc a'r tirweddau naturiol.

• Hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol y cyhoedd, gan gynnwys annog pobl i gerdded a gwneud ymarfer corff yn y Parc Cenedlaethol.

• Hyrwyddo darparu'r cyfleusterau ar gyfer adloniant neu amser hamdden arall er budd lles cymdeithasol a gyda'r nod o wella amodau byw.

Bydd pob grant a roddir gennym yn cyflawni ein hamcanion elusennol.

### 1. Diben y cyllid

Gall grwpiau cymunedol, elusennau, sefydliadau a busnesau wneud cais am hyd at £4,000 am grant Gweithredu dros Natur i gefnogi prosiectau sy'n cyflawni camau cadarnhaol o gadwraeth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cyffiniau.

Rhaid i brosiectau a ariennir gyfrannu at o leiaf un o'r canlyniadau canlynol:

- Creu mannau gwyrdd cymunedol newydd.
- Gwella'r mannau gwyrdd cymunedol presennol (heb achosi unrhyw effeithiau niweidiol i'r fioamrywiaeth frodorol sydd eisoes yno).
- Annog cyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol.

- Cefnogi bioamrywiaeth.
- Camau cadarnhaol o weithredu ar gadwraeth neu newid hinsawdd.

Mae'r cyllid hwn wedi'i ddarparu drwy’r fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Er mwyn sicrhau bod y cyllid wedi’i rannu’n deg ac yn cael yr effaith fwyaf, ein nod yw osgoi dyblu ariannu prosiectau allai hefyd fod yn gymwys i gael cymorth drwy linynnau eraill o gyllid natur.

## 2. Trefniadau Ariannu

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cyllid mewn dau randaliad:

- **Taliad cyntaf (50%)** – a roddir ar ôl cadarnhau bod cais yn llwyddiannus.
- **Taliad terfynol (50%)** – a roddir ar ôl cwblhau'r prosiect yn foddhaol a chyflwyno adroddiad terfynol gyda thystiolaeth.

## 3. Ymrwymiad Cynnal a Chadw

Fel amod derbyn grant Gweithredu dros Natur, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gytuno i ymrwymiad i gynnal a chadw am 5 mlynedd. Mae hyn yn golygu y byddant yn gyfrifol am gynnal unrhyw eitemau cyfalaf neu waith a ariennir drwy'r grant am o leiaf bum mlynedd. Mae'r ymrwymiad hwn yn helpu i sicrhau bod y prosiectau a ariennir yn golygu buddion parhaol i fyd natur ac i gymunedau. Drwy dderbyn y grant, mae’r derbynwyr yn cadarnhau bod ganddynt y gallu a'r bwriad i gynnal canlyniadau eu prosiect dros y tymor hir.

## 4. Pwy all wneud cais

Sefydliadau a busnesau nid-er-elw* yn Sir Benfro sydd â chyfrif banc yn enw'r sefydliad, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol cyfansoddedig, cynghorau cymuned, ysgolion, clybiau a chymdeithasau chwaraeon.

*Rhaid i fusnesau allu dangos budd cyhoeddus, er enghraifft darparwyr twristiaeth sydd â thir lle gall pobl dreulio amser yn cysylltu â’r byd natur.

Nid yw unigolion yn gymwys i wneud cais.

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n dod o'r ardaloedd cynghorau cymuned a thref canlynol: Penfro, Doc Penfro, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Abergwaun, Wdig, Neyland, Maenclochog, Clunderwen.

## 5. Sut mae gwneud cais

Gwneir cais dwy lenwi’r ffurflen gais fer. Mae'r ffurflen ar gael, a gellir ei llenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gellir cael ffurflen gais yn y fan hon:

Saesneg: https://forms.office.com/e/63R7PHFSZy

Cymraeg: [https://forms.office.com/e/v3rJr77vyW](https://forms.office.com/e/v3rJr77vyW)

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Llun 8 Medi 2025 am 23:45**. Mae un dyddiad cau bob blwyddyn.

Efallai y bydd y canllawiau canlynol o gymorth i chi lenwi eich cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob blwch. Nodir uchafswm y nifer geiriau a ganiateir. Nid oes angen i chi ddefnyddio'r uchafswm.

### Manylion cyswllt

- Rhowch enw eich sefydliad fel y’i nodir yn eich dogfen lywodraethol a'ch cyfriflen banc.
- Dywedwch wrthym beth mae eich grŵp neu fusnes yn ei wneud.
- Ticiwch y math o sefydliad ydych chi.
- Rhowch ddolenni neu dagiau eich sefydliad ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Rhowch wybod i ni os ydych wedi gwneud cais yn faenorol am gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur neu os ydych yn bwriadu gwneud hynny ar gyfer y prosiect hwn.

### Manylion y prosiect

- Beth yw enw'r prosiect ac ymhle fydd yn cael ei gynnal? Dywedwch wrthym ym mha ardal y cyngor cymuned neu dref y lleolir eich prosiect.
- Pryd ydych chi'n bwriadu dechrau ar y prosiect? Ni all fod wedi dechrau eisoes; ni allwn dalu am eitemau yn ôl-weithredol.
- Rhaid cwblhau'r prosiect erbyn **dydd Llun 2 Mawrth 2026.**
- Beth fyddwch chi'n ei wneud â’r cyllid grant? Byddwch yn glir ynglŷn â’r modd y bydd eich prosiect o fudd i fyd natur ac i bobl.
- Ydych chi wedi gwneud unrhyw waith ymchwil am yr angen? Pwy sydd eisiau'r prosiect, a sut y gwyddoch hyn?
- A fydd yn cael ei gynnal mewn cymuned, pentref neu grŵp penodol o bobl fydd yn elwa? Er enghraifft, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr?
- Pa wahaniaeth fyddwch yn ei wneud? Ym mha fodd y bydd pobl neu'r amgylchedd yn elwa? Pa wahaniaeth fyddwch chi'n ei weld?
- Sut fyddwch chi'n gwybod eich bod wedi gwneud gwaith da? Sut fyddwch chi'n gwybod faint o bobl fydd yn elwa? Beth fyddwch chi'n ei wneud ar ddiwedd y prosiect i weld a yw wedi gweithio?

**Cyllideb**

- Faint o arian ydych chi'n gofyn amdano? (Uchafswm o £4,000)
- Rhowch ddadansoddiad llawn o'r modd y byddwch yn gwario'r arian. Rhowch fanylion clir y costau â'r union ffigurau.
- Os na fydd y cyllid grant yn ddigon i dalu'r costau yn llawn i gyflawni'r prosiect, o ble fydd y cyllid sy'n weddill yn dod?
- Dim ond ar eitemau cyfalaf y gellir gwario'r cyllid. Yn anffodus, ni allwn ariannu gweithgareddau sy'n seiliedig ar refeniw. Mae hyn yn cynnwys cyflogau staff, llogi lleoliadau, treuliau teithio a chostau gweinyddu cyffredinol.

**Datganiad**

Ticiwch y blychau a llofnodwch y ffurflen i gadarnhau bod y manylion ar y ffurflen gais yn gywir. Dim ond person sydd wedi'i awdurdodi, megis aelod o'r bwrdd neu bwyllgor, all gyflwyno'r cais.

## 6. Pwyllgor Gwneud Penderfyniadau

Bydd pwyllgor arbenigol yn asesu ac yn sgorio pob cais, a gwneir penderfyniad cyn pen 6 wythnos i'r dyddiad cau.

## 7. Cyflawni

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau eu prosiect erbyn **dydd Llun 2 Mawrth 2026.**

Nid oes angen cyllid cyfatebol.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect a ariennir lunio adroddiad diwedd prosiect gyda thystiolaeth. Mae tystiolaeth yn cynnwys pob derbynneb am eitemau a delweddau a brynwyd. Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi dod i law, bydd y 50% olaf o'r grant yn cael ei dalu.

## 8. Diogelu Data

Ymdrinnir â phob data personol a gyflwynir drwy'r cais hwn gan Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro ac yn unol â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data.

Defnyddir y data dim ond ar gyfer gweinyddu a monitro'r Grant Gweithredu dros Natur.

Noder os gwelwch yn dda y bydd enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu rhannu â'r Lleoedd Lleol ar gyfer Natur drwy Gyngor Sir Penfro i sicrhau nad oes dyblu cyllid yn digwydd. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu â thrydydd partïon eraill heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith yn gwneud hynny yn ofynnol. Caiff eich data personol ei brosesu ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol

Arfordir Penfro gan Microsoft Forms, gan mai hwy yw ein darparwr meddalwedd sy'n casglu ffurflenni ac arolygon barn. Caiff pob gwybodaeth a gyflwynir ei lawrlwytho o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am grant a'i storio'n ddiogel gan Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.

Mae rhagor o wybodaeth am y modd y mae Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn prosesu eich gwybodaeth, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, a'r modd o arfer yr hawliau hynny, wedi'i nodi yn ein polisi preifatrwydd, a geir fan hyn: https://pembrokeshirecoasttrust.wales/privacy-policy/